**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MD/PO/372/2024

Siân Gwenllian MS
Aelod Seneddol ar gyfer Arfon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Sian.Gwenllian@senedd.cymru

3 Rhagfyr 2024

Annwyl Siân Gwenllian AS,

Diolch am eich cyfraniad yn ystod y ddadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2023-24 ar 12 Tachwedd. Yn ystod y ddadl honno, fe wnes i addo y buaswn yn ysgrifennu atoch chi yn amlinellu'r gwaith sy'n digwydd o ran safonau'r Gymraeg.

Fel wnes i sôn yn ystod y ddadl, rydym yn ddiweddar wedi ymgynghori ar ychwanegu mwy o gyrff i reoliadau safonau'r Gymraeg sydd eisoes yn bodoli. Mae'r ymgynghoriad hwnnw bellach wedi cau, ac rydym wedi dadansoddi'r ymatebion sydd wedi'u derbyn. Rydym yn hyderus y byddwn yn gallu bwrw ymlaen i osod offerynnau statudol gerbron y Senedd yn gynnar yn 2025. Bydd yr offerynnau statudol hynny yn ychwanegu chwech corff penodol, a'r categori Awdurdodau Iechyd Arbennig, i reoliadau safonau sydd eisoes yn bodoli, ac yn ychwanegu rhai o'r cyrff hynny i Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gan fod hwn yn ymrwymiad oedd yn y Cytundeb Cydweithio, rwyf wedi gofyn i swyddogion gynnal sesiwn friffio gyda llefarydd Plaid Cymru ar y Gymraeg ym mis Ionawr, er mwyn rhoi diweddariad mwy manwl ar y gwaith yma.

Rydym yn parhau i weithio trwy'r rhaglen safonau a gytunwyd yn y Cytundeb Cydweithio. Mae rheoliadau sy'n gwneud safonau ar gyfer rheoleiddwyr iechyd, a cwmnïau dŵr eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd yn gynharach yn nhymor y Senedd hon.

Mae gwaith polisi eisoes wedi cychwyn i wneud safonau ar gyfer ar gyfer cymdeithasau tai, a byddaf yn hapus i'ch diweddaru pan fydd mwy o fanylion i'w rhannu. Yn dilyn hynny, byddwn yn symud ymlaen i baratoi rheoliadau ar gyfer darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd wedi cychwyn trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg pa sectorau dylid blaenoriaethu y tu hwnt i gyfnod y Senedd hon. Mae’r trafodaethau hynny yn parhau, ond byddwch yn gwerthfawrogi, rwy’n siŵr, mai mater i’r Llywodraeth nesaf fydd pennu blaenoriaethau yn ystod tymor y Senedd nesaf, a chynllun i weithredu.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language